Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# The Haven

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/11/2016**

## Cyd-destun

Ysgol annibynnol sy'n darparu addysg i hyd at wyth o ddisgyblion 11 i 19 oed sydd â diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig (ASD) yw The Haven. Yr elusen Autism Initiatives sy'n berchen ar yr ysgol ac yn ei rheoli.

Mae'r ysgol wedi ei lleoli ar gyrion yr Wyddgrug yng ngogledd Cymru.

Mae'r adeilad yn cynnwys tair ardal ddysgu sy'n gyfforddus ac yn cynnwys adnoddau da i fodloni anghenion dysgu ac anghenion cymdeithasol y disgyblion. Mae tir helaeth sy'n cynnwys tŷ gwydr a gerddi llysiau. Mae staff a disgyblion yn defnyddio'r lle hwn yn effeithiol i ategu lles disgyblion a'r cwricwlwm.

Ar hyn o bryd, mae tri disgybl ar y gofrestr. Mae pob un o'r disgyblion wedi ei leoli gan awdurdod lleol Sir y Fflint ac mae gan bob un ohonynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA).

Ers yr ymweliad diwethaf, mae'r ysgol wedi penodi athro rhan-amser parhaol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae gan yr ysgol ffocws clir ar fodloni anghenion disgyblion unigol. Mae staff yn rhoi ystyriaeth dda i ddiddordebau disgyblion, dysgu blaenorol ac anghenion unigol i gynllunio cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Mae disgyblion yn datblygu eu cymhelliant a'u brwdfrydedd am ddysgu yn dda. Maent yn dysgu i gadw ar y dasg a chymryd rhan mewn gweithgareddau.

Mae gan yr athro arweiniol ddealltwriaeth glir o gryfderau ac anghenion datblygu'r staff.

Mae ffocws clir ar addysgu, yn enwedig o ran datblygu medrau disgyblion mewn cymryd rhan, cymhelliant a dysgu, i'w galluogi i fanteisio ar y cwricwlwm.

Mae staff yn gweithio'n dda fel tîm. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod eu harfer a sut mae hyn yn effeithio ar ddysgu disgyblion. Maent yn newid ac yn addasu gwersi yn effeithiol i fodloni anghenion dyddiol y disgyblion unigol.

Mae arsylwi gwersi yn ffurfiol yn nodwedd newydd o sicrhau ansawdd ar ôl penodi athro rhan-amser parhaol newydd. Mae hyn yn canolbwyntio'n briodol ar addysgu a dysgu a chaiff ei ddefnyddio'n effeithiol i lywio gweithgareddau datblygu staff.

## Meysydd i'w datblygu

Mae'r ysgol o'r farn bod presenoldeb rheolaidd yn flaenoriaeth uchel i'r holl ddisgyblion. Mae staff yn cysylltu'n dda â rhieni i hybu presenoldeb rheolaidd i ddisgyblion sydd wedi methu cyfnodau maith o ddysgu yn yr ysgol yn flaenorol. Fodd bynnag, mae presenoldeb yn broblem o hyd i ychydig o ddisgyblion.

Mae'r ysgol yn craffu ar waith disgyblion yn anffurfiol. Caiff hyn ei wneud gyda'r disgybl ac mae'n llywio dysgu yn y dyfodol yn briodol. Fodd bynnag, nid yw craffu ar waith yn canolbwyntio ar ansawdd addysgu ac asesu i lywio cynlluniau gwella'r ysgol.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ar gyfer staff a disgyblion yn defnyddio'r rhyngrwyd. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys digon o fanylion am gadw disgyblion yn ddiogel ar-lein. Nid yw targedau mewn cynlluniau addysg unigol (CAUau) yn cael eu holrhain yn ddigon da i asesu cynnydd disgyblion.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Gwella presenoldeb disgyblion

A3 Gwella craffu ar waith disgyblion i lywio cynlluniau datblygu'r ysgol

A4 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyngor ac arweiniad priodol ar gyfer cadw'n ddiogel ar-lein

A5 Gwneud yn siŵr fod targedau mewn CAUau disgyblion yn cael eu hadolygu'n effeithiol er mwyn olrhain cynnydd disgyblion a llywio cynlluniau'r dyfodol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

**Argymhelliad 2: Gwella datblygu medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd ar draws y cwricwlwm a gwneud yn siŵr bod y cynllunio'n cynnwys cyfleoedd i gymhwyso'r medrau hyn**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi datblygu cynlluniau gwaith priodol ar gyfer Saesneg a mathemateg. Mae athrawon yn datblygu medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd disgyblion drwy lawer o feysydd y cwricwlwm, fel archwilio barddoniaeth drwy gerddoriaeth. Fodd bynnag, nid yw CAUau yn nodi'n glir y medrau darllen, ysgrifennu a rhifedd penodol y mae angen i ddisgyblion eu datblygu. Felly, nid yw'n glir sut mae cynllunio gwersi yn ystyried anghenion disgyblion unigol.

**Argymhelliad 3: Gwella presenoldeb disgyblion â'u hymgysylltiad â dysgu**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno cynllun cymhelliant i ddisgyblion sydd wedi ei gysylltu'n uniongyrchol â phresenoldeb. Mae staff yn cyfarfod â rhieni yn rheolaidd i fynd i'r afael â phryderon unigol. Fodd bynnag, nid oes gan ddisgyblion yn yr ysgol hanes o fynychu'r ysgol yn rheolaidd, ac mae hwn yn faes i'w wella o hyd.

Pan mae disgyblion yn bresennol, mae'n yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi.

**Argymhelliad 4: Datblygu proses briodol ar gyfer olrhain ac asesu a sicrhau bod targedau CAU yn cysylltu'n agosach ag anghenion dysgu unigol disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- ddarparu gwybodaeth gyffredinol, eang i ddisgyblion am sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus 2(d)
- cynorthwyo disgyblion i werthfawrogi eu diwylliannau eu hunain a diwylliannau pobl eraill, a pharchu hynny, mewn ffordd sy'n hyrwyddo goddefgarwch a chytgord rhwng traddodiadau diwylliannol gwahanol 2(e)

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni arolygodd Estyn Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni arolygodd Estyn Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | The Haven |
| **Rhif yr ysgol** | 6646006 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 13/09/2016 |
| **Perchennog** | Autism Initiatives |
| **Staff** | 1 athro arweiniol amser llawn (35 awr)<br>1 athro rhan-amser (24.5 awr)<br>2 gynorthwyydd addysgu amser llawn (35 awr)<br>2 gynorthwyydd addysgu rhan-amser (28 awr ac 14 awr) |
| **Nifer y disgyblion** | 3 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylder ar y sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Ddim yn berthnasol |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 07/12/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Ddim yn berthnasol |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Gill Sims | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Sw Roberts | Arolygydd Tîm |